OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 888 (Cy. 133)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24 (Coldra) i Gyffordd 26 (Malpas), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau sy'n pwyso mwy na 44 o Dunelli Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Awst 2023* |
| *Yn dod i rym* | *11 Awst 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd a'r gweithlu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24 (Coldra) i Gyffordd 26 (Malpas), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau sy'n pwyso mwy na 44 o Dunelli Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Awst 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaharddiad" ("*prohibition period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 ar 11 Awst 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaharddiad, yrru unrhyw gerbyd y mae ei bwysau yn fwy na 44 o dunelli, ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn..

**Cymhwyso**

**4.** Ni yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Awst 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

### Gwahardd Dros Dro bob Cerbyd sy'n pwyso mwy na 44 o Dunelli

**1.** Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain traffordd yr M4 sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Malpas) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Coldra), gan gynnwys y ffyrdd ymuno

tua'r dwyrain wrth Gyffyrdd 26 (Malpas), 25A (Cyfnewidfa Grove Park) a 25 (Caerllion).

**2.** Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin traffordd yr M4 sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25 (Caerllion), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra).

**3.** Y darn cyfan o ffordd gyswllt tua'r de yr A449 i ffordd ymuno tua'r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 24 (Coldra) o'r man lle y mae'n ymwahanu oddi wrth lôn neilltuedig tua'r dwyrain yr M4 hyd at gylchfan Cyffordd 24 (Coldra) yr A449.